

Cofnodion



Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Lleoedd a Materion Corfforaethol

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Gorffennaf 2023

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr M Howells (Cadeirydd), J Cleverly, S Adan, J Harris, G Horton, M Linton, A Pimm, C Reeks and K Thomas

Yn bresennol: Paul Jones (Cyfarwyddwr Strategol - yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd), Silvia Gonzalez-Lopez (Rheolwr y Strategaeth Ailgylchu Gwastraff), Stephen Jarrett (Pennaeth Gwasanaethau'r Ddinas), Jonathan Keen (Rheolwr Gwasanaethau Rheoleiddiol yr Amgylchedd a Chymuned) a Neil Barnett (Ymgynghorydd Craffu)

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr J Reynolds

1 Ymddiheuriadau

Dim.

2 Datgan diddordeb

Nododd y Cynghorydd Howells fod ganddo ddatganiad buddiant ar bwnc diweddarach y byddai'n ei godi ar yr adeg briodol.

3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Ebrill yn gofnod gwir a chywir.

4 Adolygiadau Perfformiad Diwedd Blwyddyn 2022-23

Iechyd yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd

Gwahoddedigion:

- Y Cynghorydd Yvonne Forsey, yr Aelod Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a Bioamrywiaeth
- Paul Jones, Cyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Silvia Gonzalez-Lopez, Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd

Canmolodd y Cadeirydd y swyddogion am wella'r adroddiad a nododd ei fod yn gliriach ac yn haws i bobl ei ddarllen. Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a Bioamrywiaeth grynodedb byr o'r adroddiad ac amlygodd y pwyntiau perthnasol i'w phortffolio. Yna rhoddodd Pennaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd drosolwg o'r adroddiad.

Trafodwyd y canlynol:

- Gofynnodd y Cadeirydd am statws cwblhau rhai camau gweithredu sy'n gysylltiedig â gwaith. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod gan rai camau gweithredu ddyddiadau terfyn penodol, ond efallai y byddant yn mynd y tu hwnt i fis Mawrth 2024, ac y bydd cynlluniau gwasanaeth bellach ar sail dreigl.
- Holodd y Pwyllgor am adborth neu faterion yn ymwneud â'r casgliad biniau bob 3 wythnos newydd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth nad oedd cynnydd ar gasgliadau biniau yn cael sylw yn yr adroddiad, a bod angen mwy o amser i adrodd yn ôl. Roedd yr ymateb cychwynnol i'r newid wedi bod yn gadarnhaol.
- Cododd y Pwyllgor gŵyn am ailgylchu cardbord a gofynnodd a oedd yn effeithio ar gasgliadau biniau. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod bagiau yn cael eu defnyddio ar gyfer ailgylchu cardbord yn y gorffennol, ond gallai preswylwyr barhau i ddefnyddio biniau cyn belled â bod gwastraff yn cael ei ddioli'n gywir. Dylai unrhyw faterion gael eu hadrodd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gylchredeg gwybodaeth am wastraff a chasgliadau i ysgolion. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod ymgysylltu ag ysgolion wedi bod yn digwydd ers amser maith.
- Holodd y Pwyllgor am ddiweddarau nodiadau atgoffa am gasgliadau ar wefan y Cyngor. Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai hyn yn cael ei wneud, a bod calendrau papur eisoes wedi'u dosbarthu.
- Gofynnodd y Pwyllgor am bolisi ar ddisodli coed sydd wedi'u torri. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod polisi disodli coed yn barod. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol efallai na fydd coed yn cael eu disodli yn yr un lle, ond y byddent yn ceisio gwneud hynny os yn hyfyw. Awgrymodd y Pwyllgor roi cyhoeddusurwydd i'r polisi.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gynlluniau i uwchraddio parcdir ym Mharc Tredegar a pha ardaloedd oedd dan reolaeth y Cyngor. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod y tŷ dan warcheidiaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond bod y parcdir yn dal dan reolaeth y Cyngor. Gellid rhoi adborth i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol pe bai angen.
- Gofynnodd y Pwyllgor am y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu a chymeradwyo gorchymyn diogelu mannau cyhoeddus newydd. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod cynnydd wedi'i wneud ond soniodd am rywfaint o oedi. Byddent yn rhoi dyddiad i'r pwyllgor.
- Gofynnodd y Pwyllgor am argaeledd toiledau cyhoeddus. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod Diogelu'r Cyhoedd a'r strategaeth toiledau wedi cael eu symud i dai, ond bod gwaith wedi'i wneud ar ddiweddarau'r strategaeth. Cytunodd y Cyfarwyddwr Strategol i roi diweddariad ysgrifenedig ar fentrau newydd.
- Mynegodd y Pwyllgor yr angen am fwy o doiledau cyhoeddus mewn ardaloedd twristiaid. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Strategol yr angen ond nododd gost ac ymddygiad gwrthgymdeithasol fel rhesymau dros benderfyniad y Cyngor i beidio â chefnogi mwy o doiledau cyhoeddus.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ymgysylltu â phreswylwyr ynghylch parciau chwarae ac ôl-groniad archwiliadau diogelwch. Soniodd y Pennaeth Gwasanaeth am archwiliad diogelwch rheolaidd, cyllid ar gyfer gwelliannau, a chynllun ymgysylltu gyda swyddog. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod gweithredu'n seiliedig ar raglen adnewyddu a'u bod yn gweithio trwy wardiau gwahanol gyda chapasiti cyfyngedig.
- Teitl y prosiect: Parciau a Mynwentydd - Holodd y Pwyllgor am gynnydd y cwblhau 25%. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol fod gwaith wedi dechrau yn seiliedig ar

restr flaenoriaeth o'r adroddiad archwiliadau diogelwch. Nod buddsoddiad oedd mynd i'r afael â dosbarthiad anwastad o arian adran 106 ar draws y ddinas.

- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y grantiau £600k ar gyfer gwefru cerbydau trydan yn cwmpasu'r holl bwyntiau a grybwyllwyd neu a fyddai mwy o bwyntiau'n cael eu hychwanegu. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y grant a grybwyllwyd o'r flwyddyn flaenorol, a'u bod wedi gwneud cais am gyllid pellach i ehangu'r rhwydwaith. Roedden nhw wedi cyflwyno strategaeth ddrafft i'r Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu.
- Gofynnodd y Pwyllgor am y disgwyliadau ar gyfer blwyddyn 2 y gronfa prosiectau arbennig. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod y cynnydd wedi'i gyfyngu oherwydd oedi gan y llywodraeth ganolog, a'i fod yn brosiect 3 blynedd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am reoliadau ailgylchu ar gyfer ysgolion ac a oedd y Cyngor yn talu am eu casgliadau. Soniodd y Pennaeth Gwasanaeth am newid mewn deddfwriaeth ym mis Ebrill 2024 a chadarnhaodd fod ysgolion yn cael eu cynnwys. Amlygodd y Cyfarwyddwr Strategol y cymhellant i ysgolion ailgylchu i arbed eu cyllidebau.
- Holodd y Pwyllgor am farchnata'r fframwaith cymorth cydymffurfio gwell. Cynigiodd y Pennaeth Gwasanaeth roi mwy o fanylion ac adrodd yn ôl.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gyflwyno unedau blocio galwadau breswylwyr sy'n agored i niwed. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod yr unedau yn cael eu gweithredu mewn ymateb i sgamiau neu faterion penodol ac na ellid eu cynnig i'r holl breswylwyr oherwydd cyfyngiadau adnoddau.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd angen caniatâd y Cyngor i osod gwefrwyr cerbydau trydan mewn preswylfeydd preifat. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol nad oedd angen caniatâd cynllunio fel arfer, heblaw am dai teras, a bod dewisiadau eraill yn cael eu hystyried.
- Gofynnodd y Pwyllgor am bwysau tryciau ailgylchu trydan. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol fod pob tryc sbwriel yn pwyso 26 neu 22 tonnell, tra bod rhai trydan yn pwyso 26 tonnell ac yn gallu cario tua 10 tonnell.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gost gosod pwyntiau gwefru trydan y Cyngor. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol mai ychydig filoedd oedd cost offer, ond bod costau ychwanegol yn amrywio yn dibynnu ar y darparwr a sicrhau cysylltiadau cyfoes. Weithiau mae cysylltiad grid yn cyfyngu ar leoliadau gosod.
- Soniodd y Pwyllgor am gynghorau eraill yn defnyddio polion lampau ar gyfer gwefru a gofynnodd a oedd hyn yn ymarferol i Gasnewydd. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod y rhan fwyaf o stoc goleuadau Casnewydd heb fesurydd, gan ei gwneud yn gymhleth ychwanegu swyddogaethau gwefru. Roedd risgiau'n gysylltiedig â darparu cyflenwad heb ei fesur i'r cyhoedd. Roedd technolegau sy'n esblygu a gwefru cyflym yn cael eu hystyried.
- Mynegodd y pwyllgor bryderon ynghylch a oedd y Cyngor yn gallu cadw i fyny â'r newidiadau sy'n digwydd yn ei ardal. Cydnabu'r Cyfarwyddwr Strategol fod y Cyngor wedi bod yn ymdrechu i gadw i fyny â'r newidiadau hyn, ond nododd y byddai unrhyw beth a osodir ar yr adeg hon yn debygol o fod wedi dyddio o fewn pum mlynedd.
- Gofynnodd y pwyllgor hefyd a oedd y Cyngor yn diogelu ei waith ar wefrwyr cerbydau trydan at y dyfodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn ceisio gwneud hynny drwy osod cymysgedd o seilwaith gwefru.

- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y Cyngor yn sicrhau bod cap prisiau ar unrhyw waith cynnal a chadw gwefrwyr ar gontract allanol. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod cytundebau mewn lle i sicrhau cap ar gostau cynnal a chadw. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai prisiau trydan amrywio.
- Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad ar y term "seilwaith glas." Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth y pwyllgor ei fod yn cyfeirio at ddyfrffyrdd.
- Gofynnodd y Cadeirydd sut roedd gan y Cyngor danwariant yn y pedwerydd chwarter ar ôl gorwario drwy gydol y flwyddyn. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth fod yn rhaid iddynt weithio gyda rhagolygon drwy gydol y flwyddyn, nad ydynt bob amser yn gywir. Yn ogystal, roedd y cyllidebau wedi newid yn ystod y flwyddyn, ac roedd Llywodraeth Cymru wedi rhoi grantiau munud olaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

Seilwaith

Gwahoddedigion:

- Y Cynghorydd Laura Lacey – yr Aelod Cabinet dros Seilwaith ac Asedau
- Paul Jones - Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- Stephen Jarrett – Pennaeth Seilwaith.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet drosolwg byr o'r adroddiad a rhai o'r heriau y maent wedi'u hwynebu yn ystod y flwyddyn. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth drosolwg byr o'r hyn a gynhwyswyd yn yr adroddiad a'r cynllun gwasanaeth ac ychwanegodd rai heriau ychwanegol yr oedd y maes wedi'u hwynebu.

Trafodwyd y canlynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor am bwysau ychwanegol sy'n codi o'r cynllun gweithredu 20 mya a'r cyllid gan Lywodraeth Cymru. Cydnabu'r Pennaeth Gwasanaeth y cyllid ond tynnodd sylw at faterion cadw staff oherwydd defnyddio staff dros dro. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol y materion o ran defnyddio staff dros dro.
- Gofynnodd y Pwyllgor am ddileu'r groesfan dros dro ar Ruskin Avenue a gofynnodd am waith pellach ar hyn. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth yr angen i gael gwared a'r groesfan wedi dirywio a gwerthuso ei hymarferoldeb yn barhaus. Mynegodd y Pwyllgor bryderon ynghylch dryswch a achoswyd gan y groesfan dros dro a gofynnodd am well gwybodaeth os caiff ei gosod.
- Gofynnodd y Pwyllgor am y cynllun rhwydwaith teithio llesol i feiciau nad yw unrhyw ran ohono wedi'i gwblhau a'i amserlen. Cydnabu'r Pennaeth Gwasanaeth yr oedi, gan nodi'r angen am fap teithio llesol newydd a mynegi awydd y Cyngor i ddal i fyny.
- Cododd y Pwyllgor y cynllun peilot ardal ddi-draffig o amgylch ysgolion a gofynnodd am wybodaeth ychwanegol. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth y cynllun peilot gyda thair ysgol a chynlluniau ar gyfer ehangu yn seiliedig ar ymarferoldeb a chyllid. Anogodd yr Aelod Cabinet ysgolion a fyddai â diddordeb i holi. Gofynnodd y Cadeirydd i adroddiad gwerthuso'r cynllun peilot gael ei rannu gydag ysgolion.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gyflwr gwael ffyrdd a'i effaith ar adrodd data. Disgrifiodd y Pennaeth Gwasanaeth yr ymarfer casglu data a nododd fwy o ddifrod, ond sicrhodd fod ffyrdd yn cael eu cadw mewn cyflwr derbyniol. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd nad yw'n oddrychol i fod i gael ei wneud a fyddai'n rhoi arweiniad i'r Cyngor ar sut i fuddsoddi yn y ffyrdd.
- Dywedodd y Cadeirydd fod sôn am ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer priffyrdd a gofynnodd i'r swyddogion am eu hymwybyddiaeth o hyn. Rhoddodd y Pennaeth

Gwasanaeth wybod am ychydig bach o gyllid gan Lywodraeth Cymru a dywedodd ei fod yn aros am ddatblygiadau pellach.

- Holodd y Pwyllgor am gynllun y llywodraeth ar gyfer ffyrdd heb eu mabwysiadu a'r dadansoddiad cost o'u dwyn dan oruchwyliaeth y Cyngor. Soniodd y Pennaeth Gwasanaeth am eu cais a'r canlyniadau disgwylidig, ac amcangyfrifodd y Cyfarwyddwr Strategol mai £12 miliwn yw'r gost.
- Gofynnodd y Pwyllgor am reoli camerâu cyflymder dan y terfynau cyflymder 20mya newydd. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth y bartneriaeth gyda GanBwyll ac aeth i'r afael â phryderon a fynegwyd gan breswylwyr am y ffaith bod y camerâu yn gynllun gwneud arian.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

Tai a Chymunedau

Gwahoddedigion:

- Y Cyngorydd James Clarke – yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai.
- Paul Jones - Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
- David Walton – Pennaeth Tai a Chymunedau
- Jonathon Keen – Rheolwr y Gwasanaeth Rheoleiddio a Chyflenwad Tai

Dywedodd y Cadeirydd fod ganddo ddatganiad buddiant yn yr eitem hon ac felly rhoddodd wybod i'r pwyllgor y byddai'r Cyngorydd Janet Cleverly yn gweithredu fel cadeirydd ar gyfer yr adroddiad Tai a Chymunedau. Rhoddodd yr Aelod Cabinet gyflwyniad byr i'r adroddiad cyn trosglwyddo i'r Pennaeth Gwasanaeth a roddodd drosolwg o'r adroddiad gan gynnwys rhai uchafbwyntiau cadarnhaol a materion a rennir.

Trafodwyd y canlynol:

- Holodd y Pwyllgor am sut roedd y Cyngor yn mynd i'r afael â sefyllfa plant mewn llety dros dro ac amlygodd y Pennaeth Gwasanaeth fentrau i helpu pobl i adael llety dros dro, gan gynnwys ymuno â chynllun prydlesu lleol Llywodraeth Cymru.
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd angen cymorth i gyflwyno materion i Rhentu Doeth Cymru, ac eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth rôl a phwerau Rhentu Doeth Cymru, yn ogystal â phwerau rheoleiddiol sylfaenol yr awdurdod lleol.
- Gofynnodd y Pwyllgor pam nad oedd Casnewydd wedi gweithredu treth premiwm ar gartrefi gwag hirdymor i fynd i'r afael â digartrefedd, a dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth eu bod yn ystyried gwahanol opsiynau.
- Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch nifer yr eiddo gwag yn y sector rhentu cymdeithasol ac awgrymodd eu defnyddio i gartrefu pobl mewn llety dros dro. Pwysleisiodd y Pennaeth Gwasanaeth y flaenoriaeth o ddefnyddio eiddo gwag a chyfarfodydd rheolaidd gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
- Mynegodd y Pwyllgor bryderon am farchnad Airbnb a gofynnodd a allai'r Cyngor gynorthwyo gyda materion yn ymwneud â chynnal a chadw ac ailgylchu. Soniodd y Pennaeth Gwasanaeth am weithio gydag iechyd yr amgylchedd a phwysigrwyd ymgysylltu â landlordiaid eiddo rhent preifat.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar orwario mewn llety dros dro a gofynnodd a oedd metrig ar gael i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Cadarnhaodd y

Pennaeth Gwasanaeth orwariant ac amlygodd y pwysau, a dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol y gellid rhoi'r wybodaeth ond nid fel mesur perfformiad ar wahân.

- Mynegodd y Pwyllgor ddiolchgarwch am waith y tîm a soniodd am ddigwyddiad penodol lle'r oedd hyb y llyfrgell wedi cynorthwyo preswlydd.
- Gofynnodd y Pwyllgor am y pwysau penodol yng Nghasnewydd yn cyfrannu at y sefyllfa aciwt, a soniodd y Pennaeth Gwasanaeth am heriau tai cyson ledled Cymru a phwysau ychwanegol oherwydd twf cyflym Casnewydd.
- Holodd y Pwyllgor am waith y Cyngor gyda grantiau tai ar gyfer partneriaid cymdeithasol, a soniodd y Pennaeth Gwasanaeth am y pedwar partner landlord cymdeithasol cofrestredig y mae'n cydweithio â nhw.
- Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r fenter Mannau Cynnes yn parhau i aeaf 23/24. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth y byddai'n dibynnu ar gefnogaeth gymunedol a chadarnhad o gyllid gan Lywodraeth Cymru.
- Gofynnodd y Pwyllgor am y defnydd o fenthyciadau, swm cyllid, a hyrwyddo ar gyfer cynyddu argaeledd tai. Nododd y Pennaeth Gwasanaeth ffocws yn y dyfodol ar y maes hwn a dywedodd fod gwaith presennol yn cyd-fynd â'r nodau hyn. Byddai mwy o wybodaeth ar gael erbyn mis Hydref/Tachwedd 2023.
- Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i ddod â gwasanaethau ynghyd i fynd i'r afael â heriau yng Nghasnewydd a gofynnodd sut y gallai'r Cyngor flaenoriaethu cymunedau sy'n cael trafferth gyda digartrefedd. Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw at bwysigrwydd ymwneud â'r lefel uchaf, trawsnewid gwasanaethau, atal ac atebion hirdymor.
- Holodd y Pwyllgor am yr unedau sydd ar gael o bartneriaeth y Royal Foundation. Amlygodd y Pennaeth Gwasanaeth bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, rheoli disgwyliadau, a mynd i'r afael â phob agwedd ar ddigartrefedd y tu hwnt i dai.
- Gofynnodd y Pwyllgor am yr adroddiad ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r niferoedd eiddo rhent a rannwyd yn flaenorol. Ymrwymodd y Pennaeth Gwasanaeth i ddod â'r wybodaeth yn ôl i'r pwyllgor.
- Nododd y Pwyllgor y gostyngiad mewn Dangosyddion Ansawdd Canrannol a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd a gofynnodd am esboniad. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaeth ei fod yn ostyngiad mewn safonau, nid yn adlewyrchiad o berfformiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fod yn bresennol.

Casgliadau

Yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd

- Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod gan y Cyngor bolisi lle caiff dwy goeden eu plannu ar gyfer pob coeden sy'n cael ei disodli, a gofynnodd i'r polisi hwn gael ei hyrwyddo a'i hysbysebu'n well.
- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am Orchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) Maesglas ac i Reolwr Diogelu'r Cyhoedd roi gwybodaeth am yr amserlen a chynnydd y gorchymyn.
- Gofynnodd yr Aelodau am fwy o wybodaeth am y Fframwaith Cymorth Cydymffurfio Gwell a sut y cafodd ei farchnata i fusnesau.

- Tudalen 38- Cyfeirnod 11 – "**Codi ymwybyddiaeth a gorfodi'r safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol ar gyfer eiddo rhent**", roedd y Pwyllgor am wybod beth oedd canlyniad y Landlordiaid eraill nad oeddent yn cydymffurfio, sut y cysylltodd Rhentu Doeth Cymru â hyn a beth yw'r cysylltiadau â gwasanaethau eraill.

Seilwaith

- Gofynnodd yr Aelodau i adroddiad gwerthuso ar y Strydoedd Di-draffig i Ysgolion gael ei rannu gydag ysgolion i annog ysgolion addas i gofrestru.
- Nododd yr Aelodau yr arwyddion gwael ar Ffordd Ddosbarthu'r De, yn enwedig agosrwydd yr arwyddion 50mya a 30mya. Gofynnodd nhw a oedd angen adolygu hyn, o gofio nad oedd yr arwydd 50mya wedi'i symud ers i'r groesfan i gerddwyr gael ei symud a'i hailosod ar ôl y gylchfan.
- Gofynnodd yr Aelodau i'r Pennaeth Seilwaith nodi dyddiad cwblhau'r Arwyddion Bysus Digidol, a oedd wedi'u harchebu ond heb eu gosod. Gofynnodd nhw i'r adroddiad gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r dyddiadau cwblhau cywir, gan dynnu sylw at y ffaith y dylid categorio'r risg fel Coch yn hytrach na Gwyrdd.
- Pwysleisiodd yr Aelodau arwyddocâd seddi mewn safleoedd bysus ar gyfer pobl hŷn a oedd yn eu defnyddio. Er iddynt gael gwybod gan swyddogion y gallai'r seddi gael eu fandaleiddio, nododd yr Aelodau y gallai'r arwyddion bysus digidol gael eu fandaleiddio hefyd. Gwnaeth yr Aelodau sylw hefyd y gallai diffyg seddi mewn llochesi bysus gael eu hystyried yn rhwystr rhag teithio llesol pe bai pobl yn amharod i deithio ar fysus.
- Gofynnodd y Pwyllgor am gynllun i fynd i'r afael â chyflwr gwael ffyrdd ac i wella'r rhwydwaith ffyrdd, yn enwedig gan fod mwy o draffig a materion eraill yn effeithio arnynt. Cadarnhaodd y Pwyllgor y byddai'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Chwefror 2024, ond gofynnodd yr Aelodau i ddata ychwanegol gael ei anfon at y Pwyllgor cyn hynny.

Tai a Chymunedau

- Gofynnodd yr Aelodau am ffigurau ar gyfer eiddo tai cymdeithasol a adnewyddwyd i'w defnyddio eto.
- Tudalen 97, Mesur Perfformiad – "**Canran yr eiddo preifat gwag a adnewyddwyd i'w defnyddio eto**", gofynnodd y Pwyllgor a allai gael data a ffigurau ar gyfer eiddo landlordiaid cymdeithasol.
- Gofynnodd yr Aelodau i ystadegau perfformiad gan y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gael eu rhannu gyda'r Pwyllgor, fel faint o eiddo sydd wedi bod yn wag am 28 diwrnod neu fwy. Dywedwyd hefyd y byddai'r Ymgynghorydd Craffu yn ail-anfon yr adroddiad briffio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad – Pobl a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2023 i'r Pwyllgor.
- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am y stoc landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gan gynnwys cyfran yr eiddo sydd ar gael i'w rhentu sy'n cael eu hystyried yn fforddiadwy. Gofynnodd nhw hefyd am ddiffiniad clir o'r hyn mae "fforddiadwy" yn ei olygu.

- Dywedodd yr Aelodau fod oddeutu 10,000 o bobl ar y Gofrestr Tai Cyffredin yng Nghasnewydd. Yna gofynnodd nhw am ganran y bobl sydd ar y gofrestr tai cyffredin mewn awdurdodau lleol eraill cyfagos, fel Torfaen.
- Gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad o'r Cyfarfod Mannau Cynnes a gynlluniwyd ar gyfer dydd Iau 13 Gorffennaf 2023.
- Gofynnodd yr Aelodau am wybodaeth am y cynnydd premiwm o 300% ar rent a osodwyd gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn benodol, holon nhw am awdurdodau eraill a oedd wedi gweithredu'r cynnydd hwn ac a oedd yn lleihau nifer y cartrefi gwag. Yn ogystal, gofynnodd yr Aelodau hefyd am ddata ar awdurdodau lleol nad ydynt yn codi trethi cyngor ar gartrefi gwag gan fod Casnewydd yn un o bedwar awdurdod gyda'r polisi hwn.

5 Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol Ddrafft 2023-24

Gwahoddedig:

- Neil Barnett – Ymgynghorydd Craffu

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu Fersiwn Ddrafft Blaenraglen Waith Flynyddol 2023-24 i'r Pwyllgor, a manylodd ar yr adroddiadau'n dod yn y flwyddyn galendr nesaf. Cynhyrchwyd Fersiwn Ddrafft y Flaenraglen Waith Flynyddol yn dilyn adolygiad gyda Phenaethiaid Gwasanaeth, ac mae'n cynnwys adroddiadau statudol sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn flynyddol.

Camau Gweithredu:

1. **Cymeradwydd** y Pwyllgor y Flaenraglen Waith Flynyddol, yr amser dechrau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor a'r amserlen arfaethedig o gyfarfodydd, a oedd yn cynnwys y pynciau i'w trafod yn y ddau gyfarfod nesaf:

Dydd Llun 24 Gorffennaf 2023, yr eitem ar yr agenda;

- Adolygiadau Perfformiad Diwedd y Flwyddyn 2022-23

Dydd Llun 11 Medi 2023, yr eitem ar yr agenda;

- Cynllun Datblygu Lleol Newydd - Strategaeth a Ffefrir

6 Adroddiad Cynghorydd Craffu

Gwahoddedig:

- Neil Barnett – Ymgynghorydd Craffu

a) Taflen Weithredu

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Craffu y daflen weithredu i'r Pwyllgor a dywedodd fod pob cam gweithredu fel y nodir yn y tabl yn gyfredol ac eithrio un ar gyfraniad landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i'r gwasanaeth Warden Diogelwch Cymunedol a nododd y bydd ymateb yn cael ei anfon ymlaen i'r pwyllgor cyn gynted ag y bydd wedi'i dderbyn.

7 Recording

Daeth y cyfarfod I ben am 6.47 pm